**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 24 Ionawr 2023**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan. |
| **3** | MATERION BRYS | Caniataodd yr Arweinydd gwestiwn mewn perthynas â'r Gronfa Ffyniant Bro a darparodd ateb i'w cwestiwn hwnnw. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *y dylid, yn amodol ar un pwynt o gywirdeb, derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2022 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.* |
| **5** | CEISIADAU BLWYDDYN 1 I'R GRONFA FFYNIANT GYFFREDIN, A DIWEDDARIAD CYFFREDINOL YNGLŶN Â'R BROSES A'R AMSERLEN AR GYFER ROWNDIAU CEISIADAU'R DYFODOL | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*<br><br>*(a) cymeradwyo'r ceisiadau a amlinellir yn Atodiad A i'r adroddiad, yn seiliedig ar yr argymhellion gan y Grŵp Partneriaeth Craidd, a*<br><br>*(b) nodi'r wybodaeth am brosesau ac amserlenni ar gyfer ceisiadau yn y dyfodol (Atodiad B) ac yn cynghori ar y camau nesaf.* |
| **6** | CYNLLUNIAU BYW Â CHYMORTH ANABLEDD DYSGU SIR DDINBYCH | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo rhoi estyniadau dros dro i 41 o gontractau Byw â Chymorth Anableddau dysgu am gyfnod hyd at 30 Medi 2026 fan bellaf. Roedd manylion y contract a'r amserlen ddiwygiedig arfaethedig ar gyfer ail-dendro'r contractau hyn ynghlwm yn atodiad 1 i'r adroddiad.* |
| **7** | CYLLIDEB 2023/24 – CYNIGION TERFYNOL | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*<br><br>*(a) nodi effaith Setliad Drafft Llywodraeth Leol 2023/24;*<br><br>*(b) cefnogi'r cynigion a amlinellir yn Atodiad 1 yr adroddiad, ac y manylir arnynt yn Adran 4 yr adroddiad, a'u hargymell i'r Cyngor llawn er mwyn llunio'r gyllideb yn derfynol ar gyfer 2023/24;* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *(c) argymell i'r Cyngor y cynnydd cyfartalog arfaethedig o 3.8% yn Nhreth y Cyngor;*<br><br>*(d) argymell i'r Cyngor fod awdurdod yn cael ei ddirprwyo i'r Pennaeth Cyllid ac Eiddo mewn ymgynghoriad â'r Aelod Arweiniol Cyllid i addasu'r defnydd o arian sydd wedi'i gynnwys yng nghynigion y gyllideb o hyd at £500mil os oes yna symud rhwng ffigyrau'r setliad drafft a'r setliad terfynol er mwyn gallu gosod Treth y Cyngor yn amserol, a*<br><br>*(e) chadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 5 i'r adroddiad).* |
| **8** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*<br><br>*(a) nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2022/23 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb; a*<br><br>*(b) cymeradwyo cynlluniau i wario grantiau cyfalaf (£1.107miliwn) i weithredu cynllun prydlesu digartrefedd i gyflawni eiddo sector rhentu preifat ychwanegol fel y nodir yn adran 6.9 yn yr adroddiad ac Atodiad 5 i'r adroddiad.* |
| **9** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *nodi rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet.* |